Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

31 Ionawr 2017

Annwyl Simon

Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

Yn fy llythyr dyddiedig 4 Ionawr, 2017, mewn ymateb i fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 15 Rhagfyr, ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â chymhwyso'r rhyddhad yn adran 31 o'r Bil a sut yr oedd hyn yn berthnasol i ail-lenwi safleoedd cloddio glo brig.

Gallaf gadarnhau y bwriedir i'r rhyddhad yn adran 31 o'r Bil fod yn gymwys i safleoedd cloddio glo brig. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at David Rees AC.

Ers hynny, rwyf wedi bod yn dilyn sesiynau tystiolaeth eraill y Pwyllgor Cyllid ar y Bil a meddyliais y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor pe bawn yn manteisio ar y cyfle hwn i roi eglurhad pellach o ambell agwedd ar y Bil.

Gwarediadau anawdurdodedig (Adran 3 a Rhan 4)

Mae Adran 3 o'r Mesur yn ymestyn cwmpas y dreth yng Nghymru i warediadau o ddeunydd a wneir mewn mannau heblaw safle tirlenwi awdurdodedig pe bai trwydded amgylcheddol wedi bod yn ofynnol ar gyfer y gwarediad dan sylw. Gallent gynnwys, er enghraifft, safleoedd gwastraff anghyfreithlon neu dipio anghyfreithlon.

Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fydd yn gyfrifol am weithredu hyn. Rwy'n disgwyl i'w ddull o ymdrin â chydymffurfiaeth a gorfodi fod yn glir, yn gymesur ac yn gost-effeithiol, a chael ei ystyried yng nghyd-destun y gwaith ehangach y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (fel y rheoleiddiwr amgylcheddol) ac awdurdodau lleol yn ei wneud mewn perthynas â gwarediadau anawdurdodedig, gan gynnwys tipio anghyfreithlon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni wahaniaethir yn y Bil rhwng graddfa, math neu leoliad gwarediadau anawdurdodedig: mae'n bosibl codi treth ar bob gwarediad o'r fath sy'n dod o fewn yr amodau a nodir yn adran 3. Rwy'n rhagweld y bydd ffocws gweithredol ACC ar safleoedd gwastraff anawdurdodedig mwy lle mae tunnelli lawer o wastraff wedi cael eu gwaredu'n anghyfreithlon a lle mae treth bosibl yn cael ei cholli. Mae'n bosibl y gallai hyn gynnwys gweithgaredd tipio anghyfreithlon rheolaidd neu gyson.

Mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u bwriadu'n bennaf i atal efadu treth. Eu bwriad yw annog pobl i waredu eu gwastraff yn gyfreithlon a thalu eu cyfran deg o dreth gan sicrhau chwarae teg i fusnesau cyfreithlon. Maent yn ceisio sicrhau bod gwarediadau anawdurdodedig yn fwy o risg ariannol ac felly'n ddewis llai deniadol i'r rhai sy'n cael eu temtio i anwybyddu eu rhwymedigaethau amgylcheddol ac efadu treth. Mae'r darpariaethau felly yn ceisio newid y cydbwysedd o ran risg er mwyn sicrhau bod canlyniadau gwneud gwarediadau anawdurdodedig yn fwy na'r budd canfyddedig yn sgil efadu treth.

Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau (adran 16)

Nodaf y cafwyd trafodaethau ynghylch y darpariaethau yn y Bil sy'n ymdrin â'r gyfradd dreth a fydd yn gymwys i lwythi cymysg (cymysgedd o ddeunyddiau cymwys ac anghymwys) ac yn enwedig y prawf 'bychan ac atodol'.

Mae adran 16(1) yn nodi cyfres o ofynion, y mae'n rhaid bodloni pob un ohonynt er mwyn i'r llwyth cymysg fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is. Fel y trafodwyd yn ystod y sesiynau tystiolaeth, y gofyniad cyntaf yw mai dim ond swm bach o ddeunydd anghymwys sy'n atodol: termau sy'n cael eu hesbonio ymhellach yn isadran (2). Dewisir y geiriad hwn i adlewyrchu'r ffaith na ddylai maint na phwysau'r deunydd anghymwys a gynhwysir mewn llwyth cymysg fod yn sylweddol; na ddylai ei effaith ar natur/cyfansoddiad y llwyth fod yn sylweddol ychwaith a bod ei bresenoldeb yn ddamweiniol ac na ellir ei osgoi yn hytrach na'n fwriadol.

Gan symud ymlaen i ystyried rhai o'r gofynion eraill y mae'n rhaid eu bodloni hefyd, mae gofynion 3 a 6 ill dau yn darparu na all y deunydd anghymwys fod wedi'i gymysgu'n fwriadol â deunydd cymwys ac na all trefniadau fod wedi'u gwneud mewn perthynas â chymysgedd o ddeunyddiau os efadu treth oedd eu prif bwrpas. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y byddai mynd ati'n fwriadol ac yn strategol i roi deunydd cymwys ar ben deunydd anghymwys (waeth pa mor fychan neu atodol yw swm y deunydd anghymwys), neu falu neu gymysgu'n fwriadol ddeunydd anghymwys er mewn ei guddio o fewn llwyth, yn arwain at godi treth ar y llwyth cyfan ar y gyfradd safonol, gan na fyddai'r llwyth hwnnw wedi bodloni holl ofynion adran 16. Mewn cyferbyniad â hynny, mae'r gofynion yn adran 16 yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y gall cymysgedd sy'n cynnwys deunydd cymwys yn bennaf gyda darnau o ddeunydd anghymwys ynghlwm wrtho, na ellir eu gwahanu'n hawdd, fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd is o dreth.

Ni fwriedir i'r dull arfaethedig o ymdrin â llwythi fod yn sylweddol wahanol i'r sefyllfa o dan y drefn treth dirlenwi bresennol ond mae'n anelu at wneud y broses mor dryloyw a hygyrch â phosibl. Mae adran 42(2) o Ddeddf Cyllid 1996 yn darparu bod y gyfradd is yn berthnasol i ddeunydd sy'n cynnwys dim ond deunydd cymwys neu ronynnau mân cymwys. Fodd bynnag, mae adran 63 wedyn yn darparu y caiff Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi roi cyfarwyddyd y dylid trin deunydd yn ddeunydd cymwys pe bai'n cynnwys dim ond swm bach o ddeunydd anghymwys.

Caiff y pŵer cyfarwyddo hwn ei arfer o fewn y canllawiau Treth Dirlenwi (LFT1, paragraffau 7.3 a 7.4) ac mae'n nodi'r ffactorau perthnasol a siart llif y byddai angen i

weithredwr safle tirlenwi eu hystyried wrth benderfynu a ddylid hawlio'r gyfradd is ar gyfer llwyth cymysg. Mae'r amodau a'r ffactorau a nodir yn y cyfarwyddyd yn cynnwys pwysau a maint y deunydd anghymwys, ei botensial i achosi niwed, a yw wedi cael ei ychwanegu'n fwriadol ac a oes modd ei wahanu'n rhesymol oddi wrth y deunydd cymwys.

Y profion hyn, y mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn gweithio â hwy ar hyn o bryd, yw sail y gofynion yr ydym wedi eu gosod ar wyneb y Bil. Mae hyn hefyd wedi creu cyfle i ymgorffori trin llwythi cymysg sy'n cynnwys dim ond gronynnau mân yn y darpariaethau hyn, gyda'r nod o wella cydlyniant a hygyrchedd.

Mae'r Bil yn cymryd un cam newydd (yn adran 16(3)) o ran gwneud darpariaeth ar gyfer pŵer gwneud rheoliadau i ddiffinio swm "bychan ac atodol" fel canran ragnodedig o ddeunyddiau anghymwys. Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i faterion newydd a datblygiadau technolegol yn y dyfodol a'r gallu i ymateb pe bai'r egwyddor yn ymwneud â llwythi cymysg yn cael ei chamddefnyddio neu newid mewn dull gweithredu ar y mater hwn mewn rhannau eraill o'r DU.

Cosbau (Rhan 5, Pennod 4)

Wrth ystyried y cosbau a gynigir yn y Bil, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor nodi bod y cosbau hyn yn berthnasol yn ychwanegol at y ddyletswydd i roi cyfrif am warediad trethadwy a thalu treth arno.

Felly, mae person sy'n agored i gosb o £300 o dan adran 63 am fethu â chofrestru ar gyfer treth (fel sy'n ofynnol o dan adran 34), hefyd o dan ddyletswydd ar wahân i lenwi ffurflen dreth o dan adran 38 ac i dalu treth o dan adran 41, gyda chosbau a nodir yn Rhan 5 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 am fethu â gwneud hynny.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Mae nifer o agweddau ar y dreth hon a dibyniaethau rhwng pob un ohonynt sy'n creu darlun cymhleth. Pe byddai o fudd, gallai swyddogion roi briff technegol arall i'r Pwyllgor yn cynnwys rhagor o fanylion ar feysydd o'r Bil sydd o ddiddordeb arbennig iddo.

Yn gywir

Mark

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government